**Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Gorffennaf 14 2015**

Presennol: Islwyn Jones, (cadeirydd), Huw Griffith, Fred Jones, Lyn Davies, David Jones, Peter Tandy.

Darllenwyd Cofnodion Cyfarfod Mehefin 25 ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

1 Cofrestru gyda HMRC
Adroddodd y clerc ei bod wedi dilyn y camau angenrheidiol hyd yma ac yn aros am gyfarwyddyd pellach oddi wrth HMRC. Gan y bydd yn rhaid gwneud y taliad cyntaf cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ym mis Medi, cytunwyd i roi siec i'r clerc er mwyn iddi fedru cyflawni hynny.

2 Ciosg ffôn Minffordd.
Er bod yr aelodau'n medru gwerthfawrogi'r awydd i gadw eicon fel y ciosg ffôn coch yn y gymdogaeth, penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn medru cyfiawnhau gwario tua £800 o arian y gymuned ar yr un eitem yma. Y clerc i ysgrifennu at y perchnogion i egluro hynny.

3 Gwefan
Datganodd y clerc ddiddordeb personol yn y mater yma.
Daeth dau ddyfynbris i law ac ar ôl eu cymharu, cytunwyd i aros nes derbyn yr un arall a addawyd cyn penderfynu. Gan na ellid rhagweld y byddai llawer yn gwneud defnydd o wefan yn yr ardal hon awgrymwyd y dylid dewis y wefan symlaf i'w gweithredu, a'r rhataf.

Gohebiaeth

1 Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman. Derbyniwyd

2 Ymgynghoriad â'r Cyhoedd ynglŷn ag adolygu Polisi Trwyddedu. Dim sylwadau i'w hychwanegu.

3 Hysbysiad am gyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ar Orffennaf 8fed. Derbyniwyd a nodwyd.

4 Mobile Infrastructure Project. Ymgynghoriad cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer tŵr 20m o uchder ar gyfer Mobile Phone Base Station, rhwng Penciog a Phenbryn, gan Harlequin Group ar ran Arqiva Services Ltd. Astudiwyd y dogfennau a ddaeth i law. Pawb yn cydweld y byddai medru derbyn signal i ffôn symudol yn fendithiol i'r ardal. Mynegwyd peth amheuaeth a fyddai signal o'r safle a ddewiswyd yn medru cyrraedd canol y pentref oherwydd cyfyngiadau'r tirwedd. Y clerc i ymateb i'r perwyl hynny.

5 Addasu map cyhoeddus Llwybr Ceffylau ger Llyn Eiddwen.
Cafwyd trafodaeth ar hwn yn y gorffennol, a'r farn gyffredinol oedd y dylid cefnogi'r cais i israddio'r rhan o'r llwybr a nodwyd, gan na fu erioed yn addas i'w ddynodi fel Llwybr Ceffyl. Y clerc i ymateb.

6 Cyngor ar Bopeth (h.y. CAB Citizens Advice Bureau). Pamffled yn cynnig cyngor ar y newid mewn pensiynau. I'w rhoi ar yr hysbysfwrdd cyhoeddus.

7 Cylchgrawn Clerks and Councils Direct. Derbyniwyd.

8  Bil Trydan Scottish Power.  £42.21  Awdurdodwyd ei dalu.

9  Cyfriflen Banc.  £2881. 39 yn y cyfrif cyfredol.
£6401. 48 yn y cyfrif rhif dau.

Unrhyw Fater Arall
Derbyniwyd nifer o gwynion ynglŷn â baw cŵn ar y llwybrau cyhoeddus. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglŷn â chael arwyddion pwrpasol i'w gosod mewn mannau amlwg i geisio tynnu sylw ac atgoffa perchnogion cŵn o'u dyletswydd. Gofyn hefyd ynglŷn â biniau i ddal baw cŵn, a gwybod pwy fyddai'n eu gwagio.

Adroddwyd bod rhai o'r tyllau yn yr hewl rhwng y pentref ag Esgair wedi cael eu cywiro.

Codwyd y mater o'r angen am dorri'r gwrychoedd ond nodwyd bod y gwaith yn cael ei wneud unwaith y flwyddyn yn unig, bellach, ac mae'n debyg mai ym mis Medi fydd hynny.
Bydd y pwyllgor nesaf ar Fedi 17
Yn ddiweddarach newidiwyd y dyddiad i Fedi 16.